Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: Malawi

Malawi, Kasinthula, Siwgwr



Malawi

Daearyddiaeth: Mae Malawi yn ne-ddwyrain Affrica ar y ffîn â Zambia yn y gorllewin, Tanzania i'r gogledd-ddwyrain a Mozambque i'r dwyrain, de a'r gorllewin. Tua'r un faint â Phortiwgal, mae Malawi wedi'i rhannu'n dri rhanbarth a 27 o ddosbarthau. Lilongwe yw'r brifddinas ond y ddinas fwyaf a chanolfan fasnachol y genedl yw Blantyre. Yn nwyrain y wlad y mae Llyn Malawi, y deuddegfed llyn dŵr croyw mwyaf yn y byd. Mae llawer o Falawi'n wastad ond mae yna fynyddoedd uchel ar Lwyfandir Nyika yn y gogledd.

Mae Nyanja (chinyanja), a elwir hefyd yn Chewa (chichewa) ar ôl y llwyth mwyaf sy'n ei siarad, yn iaith Bantu sy'n cael ei siarad gan fwy na 15 miliwn o bobl yn neheudir Affrica.

Gwers gyflym mewn Chewa: Am "helo." dywedwch "Moni"

Iaith

Ieithoedd cenedlaethol neu swyddogol Malawi yw Nyanja (Chewa), Tumbuka a Saesneg. Mae yna 13 o ieithoedd eraill yn cael eu siarad ym Malawi gan gynnwys Lomwe, Kokola ac Yao.

Photos: Traidcraft/Richard Else

Prif allforion Malawi yw... tybaco, te a siwgwr.

Wyddech chi?

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: Malawi

Malawi, Kasinthula, Siwgwr

Ystyr y Faner

Mae tair streipen lorweddol ar faner Malawi. Du, sy'n cynrychioli pobl Affrica, coch sy'n symbol o'r gwaed a gollwyd yn ymladd am annibyniaeth Malawi a gwyrdd sy'n cynrychioli llystyfiant y wlad. Mae codiad yr haul ar y faner yn cynrychioli toriad gwawr rhyddid a gobaith dros gyfandir Affrica.

Crefydd: Protestant 55%, Mwslim 20%, Catholig Rufeinig 20%, crefyddau traddodiadol cynhenid a rhai eraill 5%

- Poblogaeth: **14.85 miliwn**
- Dwysedd Poblogaeth: **129 o bobl i bob cilometr sgwâr**
- Llythrennedd: **72.8%**
- Plant wedi'u cofrestru mewn Addysg Gynradd: **90.6%**
- Plant wedi'u cofrestru mewn Addysg Uwchradd: **25%**
- Achosion HIV / AIDS yn y boblogaeth (15 – 49 mlwydd oed) : **11.9%**

Hinsawdd

Oherwydd y tirwedd, mae hinsawdd Malawi'n amrywiol. Yn gyffredinol, mae'r tymhorau'n cael eu rhannu i'r tymor cymharol oer o fis Mai tan ganol Awst, y cyfnod poeth o fis Awst tan fis Tachwedd a thymor y glaw o fis Tachwedd tan fis Mai. Ceir cyfartaledd o 163cm o law bob blwyddyn ar arfordir gogleddol Llyn Malawi. Yn y rhan fwyaf o'r wlad (tua 70%), mae'r cyfartaledd yn 75 – 100cm y flwyddyn.

Wyddech chi?

Ym 1859, cyrhaeddodd David Livingstone, y cenhadwr a'r arloesydd o'r Alban, Lyn Malawi ac fe'i enwodd yn Llyn Nyasa. Sefydlodd David Livingstone genhadaeth Gristnogol ym Malawi. Enwyd Blantyre, sydd erbyn hyn yn ganolfan fasnachol a diwydiannol bwysig ym Malawi, ar ôl man geni David Livingstone yn yr Alban.

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: Malawi

Malawi, Kasinthula, Siwgwr

Hanes

Y ganrif gyntaf Oed Crist	13eg-15fed Ganrif	1480	17eg Ganrif	1790-1860
Ymosododd llwythau'n siarad Bantu ar ranbarth lle'r oedd llwythau Twa a Fulani'n byw.	Symudiadau pellach o bobl yn siarad Bantu i'r ardal ac yn gweithio gydag arfau haearn.	Sefydlu Conffederaliaeth Maravi gan bobl yn siarad Bantu a oedd, yn ei anterth, yn cynnwys rhannau helaeth o Zambia a Mozambique heddiw yn ogystal â Malawi.	Arloeswyr o Bortiwgal yn cyrraedd.	Y fasnach gaethweision yn cynyddu'n ddramatig

1891	1964	1964-1994	1994	2004
Prydain yn coloneiddio a rheoli o dan enw Nyasaland	Annibynniaeth oddi wrth Brydain a'i henwi'n Malawi	Bodoli fel gwladwriaeth unblaid yn cael ei rheoli gan Arlywydd Hastings Kamuzu Banda	Cynnal yr etholiad aml blaid gyntaf. Collodd Banda	Yr Arlywydd Bingu Mutharika yw'r arlywydd ar hyn o bryd ar lywodraeth aml blaid a etholwyd yn ddemocratig.

Canolbwynt ar y Wlad: Chikwawa

Mae Chikwawa, lle mae ffermwyr siwgwr Kasinthula, yn ddosbarth yn rhanbarth deheuol Malawi. Mae'n ardal anial lle mae malaria'n rhemp ac sy'n dioddef o gyfnodau hir o sychder ac o lawogydd ddwywaith y flwyddyn sy'n achosi llifogydd yn aml. Gan fod y tir mor isel mae'n boeth hyd yn oed yn ystod y misoedd oerach. Mae Chikwawa yn un o ranbarthau tlotaf De Affrica. Mae'r rhan fwyaf o ffermwyr yn crafu byw ar y tir neu'n gweithio i gynhyrchu siwgr.

Ymolchi a golchi dillad mewn camlesi dyfrio